



Ymddiriedolaeth
Genedlaethol
National Trust



Parc Dinefwr

Pecyn Adnoddau
Tŷ Newton

DYSGU



Ymddiriedolaeth
Genedlaethol
National Trust



Tudalen 1	Clawr
Tudalen 2	Cynnwys
Tudalen 3	Cyflwyniad
Tudalen 4	Cynllunio Arfbais
Tudalen 5	Fy Arfbais i
Tudalen 6	Cyfnod Sylfaen - Taflen Tro Trwy'r Tŷ
Tudalen 7	Cyfnod Allweddol 2 - Taflen Tro Trwy'r Tŷ
Tudalen 8	Pwy yw Pwy?
Tudalen 9	Gweithgaredd Dosbarth— 'Nabod y Bwtler
Tudalen 10	Tŷ ar Werth
Tudalen 11	Gweithgaredd Google Earth
Tudalen 12	Gweithgaredd Gwaith Cartref 1
Tudalen 13	Gweithgaredd Gwaith Cartref 2
Tudalen 14	Gweithgaredd Hen Arian
Tudalen 15	Cyfrifo Gwerth
Tudalen 16	Cyfrifo Cyflogau
Tudalen 17	Taflen Hen Arian
Tudalen 18	Gwneud Bag Lafant



Ymddiriedolaeth
Genedlaethol
National Trust

Cyflwyniad

Nod y pecyn hwn yw helpu athrawon i baratoi ar gyfer tywys ymweliad eu hunain mewn ffordd greadigol, hyderus a llawn dychymyg. Mae'r awgrymiadau am weithgareddau yn hyblyg, ac mae modd eu cynnal mewn sawl ffordd. Ry'n ni'n annog athrawon i ddethol ac addasu'r deunydd er mwyn sicrhau ei fod yn cwrdd â deilliannau cwricwlwm ac anghenion y flwyddyn sy'n ymweld.

Iechyd a Diogelwch

Er bod taflenni asesiad risg ar gael dim ond i chi ofyn, yn ôl canllawiau'r awdurdod lleol mae athrawon ac arweinwyr grŵp yn gyfrifol am gyflawni eu un eu hunain, yn enwedig os oes gan blant unigol anghenion penodol.

Archebu ymweliad

I holi am ymweliad neu os am fwy o wybodaeth, cysylltwch os gwelwch yn dda â

dinefwrlearning@nationaltrust.org.uk

neu ffoniwch 01558 825927

Gofynnwn i chi archebu o leia bythefnos ymlaen llaw am ymweliad gyda tywysydd

Tŷ Newton a'r Cwricwlwm

I ddisgyblion, mae Tŷ Newton yn cynnig awyrgylch ddiddorol ac amgylchedd cyffrous i ddatblygu rhychwant o sgiliau iaith a llythrennedd. Mae'r awgrymiadau yn y pecyn hwn yn annog disgyblion i amsugno holl awyrgylch y tŷ er mwyn cynhyrchu syniadau, barn a phrofiadau byw. Mae'r gweithgareddau hefyd yn archwilio, cynllunio, datblygu ac adfyfyrio ar syniadau i'w defnyddio mewn prosiectau iaith lafar ac ysgrifenedig.





Ymddiriedolaeth
Genedlaethol
National Trust

Cyfnod Sylfaen

Tro Trwy'r Tŷ

Ydych chi'n gallu gweld y pethau hyn wrth fynd am dro o gwmpas y tŷ? Rhowch dic yn bocs pan welwch chi nhw.












Ymddiriedolaeth
Genedlaethol
National Trust

Cyfnod Allweddol 2

Tro Trwy'r Tŷ

Ewch am dro o gwmpas Tŷ Newton yn eich grwpiau bach. Gan ddefnyddio'ch dyfais ddigidol, cymerwch luniau o bethau ry'ch chi'n meddwl sy'n cyferbynnu â'r lluniau ar y daflen hon.





Ymddiriedolaeth
Genedlaethol
National Trust

Pwy yw Pwy?

Roedd gan bob cartref mawr fwtler, a fe oedd y prif aelod o'r staff. Enw'r bwtler yn Nhŷ Newton oedd Mr Trusler. Byddai Meistr y Tŷ, ei deulu a'u gwesteion yn ei alw'n 'Trusler', ond byddai'r staff a gweithwyr eraill yn ei alw'n 'Mr Trusler' neu 'Syr'.

Gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd o gwmpas y llawr isaf, a allwch chi dynnu llinell i gysylltu pob person gyda'u swydd, a wedyn eu rhifo yn ôl trefn pwysigrwydd?

Trefn Pwysigrwydd




Gwas stabl



Bwtler



Ail Was Lifrai



Gwas Lifrai
Cyntaf



Gwas Cyntedd


Gweithgaredd Dosbarth: **'Nabod y Bwtler**



Dyma Mr. Trusler. Fe yw'r Bwtler yn Nhŷ Newton. Eich tasg chi yw ymchwilio i waith bwtler yn ystod y cyfnod Fictoraidd i ddarganfod pam mai fe oedd prif aelod y staff mewn tai fel Tŷ Newton.

1. Pam fod y bwtler yn cael ei ystafell ei hunan?
2. Faint o arian yw cyflog bwtler?
3. Beth yw cyfrifoldebau bwtler?
4. Oes gan fwtleriaid unrhyw ddyletswyddau arbennig?
5. Ydy bwtler yn mynd ar wyliau? Os yw e, pwy sy'n gwneud ei waith yn y tŷ tra bydd e i ffwrdd?

Lle i ysgrifennu eich cwestiynau chi a'r atebion:



Mae'r teulu Rhys eisiau symud ac mae'n rhaid gwerthu Tŷ Newton. Esguswch mai chi yw'r gwerthwr tai a phenderfynwch beth yw'r pethau sy'n arbennig am y tŷ, er mwyn ei helpu i werthu'n gyflym.

Wrth i chi fynd o gwmpas, gwnewch nodiadau yma a allai fod yn ddefnyddiol i chi pan fyddwch nôl yn yr ystafell ddosbarth yn creu eich taflen **AR WERTH**.

Cofiwch gynnwys disgrifiadau creadigol a lliwgar o'r tŷ gan ddefnyddio geiriau sy'n perswadio e.e. Mae gan y tŷ hardd hwn olygfa eang, hyfryd ac 8 llofft hael.

Defnyddiwch eich llechen i gymryd rhai lluniau o'r tŷ a rhai o'r ystafelloedd.

Meddylwch am leoliad y tŷ, golygfeydd, nodweddion gwreiddiol a'r ardd.

FAINT?

Nôl yn y dosbarth, ymchwiliwch ar-lein a dewch o hyd i dai tebyg sydd ar werth.

Edrychwch i weld beth yw gwerth tai tebyg a gweithiwch mas beth ddylai fod y pris gofyn am Dŷ Newton.



Ymddiriedolaeth
Genedlaethol
National Trust

Gweithgaredd Google Earth

Gweithgaredd Dosbarth

Cyn ein taith i Barc Dinefwr a Thŷ Newton, ry'n ni'n mynd i archwilio'r ardal lle ry'ch chi'n byw gan ddefnyddio Google Earth.

Enghraifft: I wneud hyn, teipiwch Cymru yn y blwch chwilio, ac wedyn enw eich tref neu bentref.

1. Gan ddefnyddio Google Earth, edrychwch i weld beth sydd o gwmpas eich cartref ac yna ysgrifennwch eich nodiadau yn y blwch fan hyn. Er enghraifft, siopau, parciau, ysgolion

2. Nesaf—teipiwch Tŷ Newton House, Llandeilo yn y blwch chwilio ac archwiliwch yr ardal o gwmpas y tŷ i weld beth sydd yna, ac ysgrifennwch eich nodiadau yn y blwch fan hyn.

3. Yn olaf, cymharwch beth sydd o gwmpas eich tŷ chi a Thŷ Newton i weld os oes yna bethau sy'n wahanol rhwng y ddau le, ac ysgrifennwch eich nodiadau yn y blwch fan hyn



Ymddiriedolaeth
Genedlaethol
National Trust

Gweithgaredd Gwaith Cartref—Taflen 1

Cyfwelwch eich rhieni, mam-gu, tad-cu neu oedolion eraill sy'n ffrindiau i chi er mwyn cymharu y pethau sydd gyda chi yn eich bywyd chi â beth oedd ganddyn nhw pan oedden nhw yr un oedran â chi.

	Am eich rhieni/gofalwyr	Am mam-gu neu dad-cu
Pa flwyddyn oedd hi pan oeddech chi yr un oedran â fi nawr?		
Oeddech chi'n byw yn y dref neu'r wlad?		
Faint o ystafelloedd oedd yn eich cartref chi? Oeddech chi'n rhannu llofft?		
Sut fath o le oedd yr ystafell ymolchi/tŷ bach? Oedd gyda chi dapiau dŵr poeth ac oer?		
Sut oeddech chi'n gwresogi'r tŷ? Oedd gyda chi le tân agored neu wres canolog, neu'r ddau?		
Ble fydddech chi yn bwyta'ch prydau bwyd?		
Oedd ffôn gyda chi?		
Beth oeddech chi'n ei wneud ar ôl dod adre o'r ysgol?		

Gweithgaredd Gwaith Cartref—Taflen 2

Atebwch y cwestiynau isod fel y gallwch chi eu cymharu nhw gyda'r atebion roddodd eich rhieni, gofalwyr, mam-gu neu dad-cu ar y daflen gwaith cartref ddiwethaf.

	Amdanat ti
Beth yw dy oed di?	
Wyt ti'n byw yn y dref neu'r wlad?	
Sawl ystafell sydd yn dy dŷ di? Wyt ti'n rhannu llofft?	
Pa fath o le yw dy ystafell ymolchi/ tŷ bach? Oes gyda ti dapiau dŵr poeth ac oer?	
Sut wyt ti'n gwresogi dy dŷ? Oes gyda ti le tân agored neu wres canolog neu'r ddau?	
Ble wyt ti'n bwyta dy brydau bwyd?	
Oes ffôn gyda ti?	
Beth wyt ti'n ei wneud ar ôl dod adre o'r ysgol? Wyt ti'n gwylio'r teledu neu chwarae gemau neu wrando cerddoriaeth?	



Ymddiriedolaeth
Genedlaethol
National Trust

Gweithgaredd Hen Arian



Yr enw cywir ar yr hen ddarn arian	Enw'r darn arian ar lafar	Gwerth y darn arian yn yr hen drefn o geiniogau a swlltau
Ffarddin	Ffyrlling, ffaden	1/4 ceiniog
Dimau	Dime	1/2 ceiniog
Ceiniog		1 geiniog(1d)
Tair ceiniog	Pishyn tair, darn tair	3 ceiniog (3d)
Chwe cheiniog	Pishyn chwecheiniog/ chwechyn	6 cheiniog (6d)
Swllt	Swlltyn	12 ceiniog (12d)
Fflorin	Pishyn deuswllt, darn de- uswllt	2 swllt
Hanner Coron		2 swllt 6 cheiniog (2s/6d)
Coron		5 swllt
Sofren	Punten	20 swllt
Gini*		21 swllt(1 Sofren ac 1 Swllt)

Er nad oedd yna ddarn arian o'r enw Gini, roedd y swm o arian a oedd yn werth Gini yn cael ei ddefnyddio'n aml i brynu "nwyddau dyn bonheddig", fel ceffylau neu baentiadau.



Cyfrifo Gwerth

Ceisiwch ddefnyddio'r nifer lleiaf o ddarnau 'hen' arian i dalu am nwyddau.

Er enghraifft, pe byddech chi yn gorfod talu 7 swllt a 9 ceiniog (7/9d), byddech angen o leiaf tri darn o hen arian—coron (5 swllt), hanner coron (2 swllt a chwe cheiniog) a darn tair ceiniog.

Cyfrifwch y nifer lleiaf o ddarnau arian fydddech eu hangen i dalu y symiau hyn.

Cost	Enwau'r darnau arian sydd eu hangen	Nifer o ddarnau arian
7 swllt(s) a 9 hen geiniog(d)	coron, hanner coron, darn tair ceiniog	3
12 hen geiniog(d)		
10 swllt (s) a 4 hen geiniog(d)		
15 swllt(s) a 2 hen geiniog(d)		
Sofren		

Cyfrifwch y newid fyddai ei angen i chi roi nôl o sofren.

Cost	Newid o sofren
7 swllt(s) a 9 hen geiniog(d)	
12 hen geiniog(d)	
10 swllt(s) a 4 hen geiniog(d)	
15 swllt(s) and 2 hen geiniog(d)	
Sofren	



Ymddiriedolaeth
Genedlaethol
National Trust

Cyfrifo Cyflogau

Cyfrifwch gyflog un wythnos o waith pob gwas a morwyn.

Pwynt pwysig: (cyflog ÷ wythnosau mewn blwyddyn)

Gwaith y gwas neu forwyn	Cyflog blwyddyn	Cyflog bob wythnos
Bwtler	£60	
Morwyn	£16	
Cogyddes	£35	
Morwyn fach	£13	
Gwas Cyntedd	£9	
Howscipar	£50	
Gwas Lifrai 1af	£30	
Gwas Stabl	£15	
Morwyn y gegin	£14	
2il Was Lifrai	£25	

Nawr llanwch y tabl gyda'r person sy'n ennill y gyflog uchaf ar y top, lawr hyd at yr un sy'n ennill y gyflog isaf.

Swydd y Gwas neu Forwyn	Cyflog pob mis

Wyt ti'n credu bod cyflog gwas neu forwyn yn adlewyrchu eu pwysigrwydd o fewn y tŷ? Pam?

Hen Arian

Rhowch y darnau arian yn y drefn gywir, gan ddechrau gyda'r un sydd werth

lleiaf.



Gwneud Sach Fach Lafant



Yn ystod cyfnod Fictoria roedd menywod yn credu bod lafant yn ffasiynol iawn oherwydd roedd yn gallu cael ei ddefnyddio ar gyfer llawer o wahanol bwrpasau. Roedd y Fictoriaid yn defnyddio Lafant fel persawr, fel arogl ymlid pryfed, fel pot-pourri, polish celfi, triniaeth llau pen, a moddion cyffredinol yn y cartref. Byddai lafant sych yn cael ei roi mewn sachau bach o ddefnydd a'u hongian mewn cypyrddau dillad, a hefyd rhwng y dillad gwely mewn cwpwrdd prés bychan (sef cwpwrdd crasu oes Fictoria) neu drwy'r tŷ. Roedd menywod hefyd yn rhoi sachau bach o lafant yn eu ffrogiau gan obeithio denu sylw cariad.


Sut i wneud Sach Fach Lafant:




1. Rhowch ddarn sgwâr o ddefnydd ar y bwrdd.



2. Cymerwch lond llwy o lafant sych o'r fowlen a'i roi yng nghanol y sgwâr.



3. Rhowch un neu ddau ddiferyn o olew lafant ar ben y blodau sych.



4. Codwch bedair cornel y defnydd i'r canol a'i binsio'n dynn



5. Clymwch ddarn o ruban o gwmpas canol y defnydd, gan gadw'r lafant sych y tu mewn.